## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (MAN I’R GOGLEDD O FETHESDA, GWYNEDD) (DILEU CYFYNGIAD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darn o gefnffordd yr A5 sy’n ymestyn o bwynt 135 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Thal Gae hyd at bwynt 19 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Thyddyn Iolyn, i’r gogledd o Fethesda, Gwynedd.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 11 Ebrill 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopi o’r Gorchymyn arfaethedig, y plan a Datganiad o’r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA2283446.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y’u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu’n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 2 Mai 2025.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o’r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a’ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny’n angenrheidiol er mwyn ymdrin â’r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech ddatgan hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo’r sylwadau i’r trydydd parti priodol gyda’r enw a’r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A5 TRUNK ROAD (NORTH OF BETHESDA, GWYNEDD) (DERESTRICTION) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to derestrict to the national speed limit the length of the A5 trunk road that extends from a point 135 metres west of the centre-point of its junction with Tal Gae to a point 19 metres east of the centre-point of its junction with Tyddyn Iolyn, north of Bethesda, Gwynedd.

During a period of 21 days from 11 April 2025, a copy of the proposed Order, plan and the Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Bangor Library, Gwynedd Road, Bangor LL57 1DT, or can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders or obtained, free of charge, from the address below quoting reference number qA2283446.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 2 May 2025.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government